# Polisi ar recriwtio myfyrwyr â chollfarnau troseddol Prifysgol Abertawe

Mae Prifysgol Abertawe'n ymdrechu i hyrwyddo cyfle cyfartal i'r holl ymgeiswyr â'r cyfuniad iawn o ddoniau, sgiliau a photensial. Felly, mae Prifysgol Abertawe'n croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr o gefndiroedd amrywiol. Rydym yn gofyn i ymgeiswyr ddatgelu manylion troseddau blaenorol fel y gall y Brifysgol asesu a allai hyn effeithio - ac i ba raddau - ar ddiogelwch a lles staff, myfyrwyr, ymwelwyr ac eraill sy'n defnyddio ein gwasanaethau neu ein cyfleusterau; a/neu addasrwydd rhywun ar gyfer rhaglen. Ni fydd collfarn o reidrwydd yn gwahardd ymgeiswyr rhag cael lle ar y rhaglen o'u dewis. Bydd hyn yn dibynnu ar y rhaglen ac amgylchiadau a chefndir y drosedd neu'r troseddau.

Gofynnir i ymgeiswyr roi gwybod i'r Brifysgol am unrhyw gollfarnau troseddol a allai fod ganddynt ar wahanol adegau yn ystod y broses dderbyn, gan ddibynnu ar natur y rhaglen astudio:

## 1. Rhaglenni Addysg/Astudiaethau Plentyndod, Iechyd, Meddygaeth a Gwaith Cymdeithasol

Gofynnir i ymgeiswyr am raglenni sy'n golygu gweithio gyda phlant a/neu oedolion diamddiffyn ddatgan pob collfarn neu rybuddiad (llafar neu ysgrifenedig), ar eu ffurflen gais, hyd yn oed rhai y tybir eu bod wedi darfod yn ôl y Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr; ac eithrio'r rhai a fyddai'n cael eu 'hidlo' dan ganllawiau 2013 y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (am ragor o wybodaeth am gollfarnau 'wedi'u hidlo', gweler: What-will-be-filtered-by-the-DBS.pdf)

Pe bai ymgeisydd yn llwyddiannus mewn cyfweliad ar ôl datgelu collfarn, byddai unrhyw gynnig yn amodol ar asesiad o'r ymgeisydd ar gyfer y rhaglen gan y "Panel Addasrwydd i Ymarfer". Hefyd, byddai'n ofynnol i ymgeiswyr gwblhau gwiriad uwch o gofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Os yw'r datgeliad yn dangos collfarn neu rybuddiad troseddol, bydd y Panel Addasrwydd i Ymarfer yn penderfynu a yw unrhyw gollfarnau neu wybodaeth sy'n cael eu datgelu yng ngwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gydnaws â lle ar y rhaglen a chofrestriad proffesiynol (os yw hynny'n berthnasol), a bydd yn gwneud argymhelliad i Gadeirydd y Panel Collfarnau Troseddol ynghylch derbyn unrhyw ymgeisydd sydd â chollfarnau perthnasol nad ydynt wedi darfod (gweler 2 isod).

Ni chaniateir i ymgeisydd gofrestru ar gyfer rhaglen sy'n gofyn am wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd nes bod y broses honno wedi'i chwblhau. Mae'n bosib y caniateir i ymgeiswyr gofrestru wrth aros am ddatgeliad boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ond os daw unrhyw wybodaeth i'r amlwg o ganlyniad i hyn, ar ôl i'r ymgeisydd gofrestru, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i derfynu'r broses gofrestru a gofyn i'r myfyriwr dynnu'n ôl.

## 2. Rhaglenni eraill (nad ydynt yn gofyn am wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd)

Ar ôl derbyn cynnig o le, gofynnir i ymgeiswyr am raglenni eraill ddatgelu unrhyw gollfarnau eraill 'heb ddarfod' y tybir eu bod yn 'berthnasol'.

Collfarnau perthnasol yw'r rhai sydd â goblygiadau ar gyfer dyletswydd prifysgolion i ofalu am ddiogelwch eu myfyrwyr, eu staff a'u hymwelwyr. Mae hyn yn cynnwys collfarnau sy'n ymwneud â thrais, troseddau rhywiol a chyflenwi cyffuriau, ynghyd â throseddau sy'n ymwneud â drylliau, llosgi'n fwriadol a therfysgaeth.

Nid oes rhaid i ymgeiswyr ddweud wrthym am gollfarnau 'sydd wedi darfod' yn ôl y diffiniad yn Neddf Adsefydlu Troseddwyr 1974.

Gofynnir i'r ymgeisydd ddarparu datganiad personol ysgrifenedig am amgylchiadau'r gollfarn neu gollfarnau, y cosbau o ganlyniad a gwybodaeth gefnogol gan swyddog prawf neu berson arall sy'n ymwneud â'r achos (os yw'n berthnasol). Gan ddibynnu ar natur y gollfarn, gallwn hefyd ofyn am adroddiad annibynnol o'r digwyddiad a'r cosbau. Gall hyn fod ar ffurf adroddiad cyn dedfrydu neu ddatganiad arall gan ymgynghorwyr cyfreithiol. Os nad yw ymgeisydd yn datgelu gwybodaeth sy'n berthnasol yn uniongyrchol i'r achos, gellir tynnu'r cynnig o le yn ôl neu derfynu'r broses gofrestru.

## Proses Panel Collfarnau Troseddol y Brifysgol

Caiff yr achos ei ystyried i ddechrau gan y Pennaeth Derbyn. Yn achos mân gollfarn droseddol (e.e. collfarn a fyddai'n cael effaith fach, neu ddim effaith o gwbl, ar gymuned y Brifysgol), gellir caniatáu i'r cais fynd yn ei flaen heb unrhyw weithredu pellach.

Os bydd angen ystyried yr achos ymhellach, bydd y Pennaeth Derbyn yn cyflwyno'r achos ger bron Panel Collfarnau Troseddol y Brifysgol. Mae'r holl achosion a gyflwynir i'r panel i'w hystyried yn ddienw, felly caiff yr holl ddogfennau a dderbynnir gan y Swyddfa Derbyn eu golygu i ddileu unrhyw fanylion personol fel na fydd modd adnabod ymgeiswyr. Ar ôl pob panel, bydd aelodau'r panel yn dinistrio'r holl ddogfennaeth a chedwir gwybodaeth berthnasol yn unig, a hynny'n ddiogel o fewn y Swyddfa Derbyn ac yn unol â Deddf Diogelu Data 1998.

Aelodau'r Panel yw cynrychiolwyr y Brifysgol o Wasanaethau Academaidd, Gwasanaethau Myfyrwyr a'r Swyddfa Derbyn. Fodd bynnag, mae'n bosib y bydd angen gofyn i aelodau staff eraill ddarparu gwybodaeth bellach a'u barn ynghylch mesurau diogelu neu gamau gweithredu priodol i'w rhoi ar waith. Cedwir enw'r ymgeisydd dan sylw yn gyfrinachol lle bynnag y bo modd. Ar sail yr wybodaeth a ddarperir, bydd y panel yn asesu'r risg i'r ymgeisydd a'r myfyrwyr, i staff ac i eraill y gall yr ymgeisydd ddod i gysylltiad â nhw, gan ystyried y canlynol:

- Natur y drosedd neu'r troseddau ac a hyn yn berthnasol i'r rhaglen astudio
- Faint o amser yn ôl y cyflawnwyd y drosedd neu'r troseddau
- Os oes mwy nag un drosedd, a oedd pob un yn drosedd wahanol neu'n rhan o gyfres o ddigwyddiadau tebyg
- Argymhellion unrhyw ganolwyr ac unrhyw amgylchiadau lliniarol ac amgylchiadau gwaethygu
- Ymddygiad ac unrhyw achosion disgyblu a ddigwyddodd yn ystod unrhyw gyfnodau blaenorol o astudio yn y Brifysgol

Gan ddibynnu ar yr asesiad o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gollfarn, gall y Brifysgol:

- Cadarnhau'r lle ar y rhaglen, ar yr amod bod yr ymgeisydd yn gallu bodloni unrhyw amodau a bennir yn y cynnig;
- Atodi amodau ychwanegol ar gyfer derbyn/cofrestru'r ymgeisydd ar y rhaglen; neu
- Canslo'r cynnig a pheidio â derbyn yr ymgeisydd.

Os caiff y cynnig ei dynnu'n ôl ar sail collfarn, ac os yw'r ymgeisydd yn credu nad yw'r broses wedi cael ei dilyn yn gywir, mae ganddo/ganddi hawl i apelio dan y Weithdrefn Cwynion ac Apeliadau ar gyfer Ymgeiswyr.

**Collfarnau heb eu datgelu**

Os oes gan y Brifysgol reswm dros amau nad yw ymgeisydd wedi datgelu collfarnau perthnasol sydd heb ddarfod, gofynnir i'r ymgeisydd ddarparu rhagor o wybodaeth yn unol â'r polisi ynghylch darparu gwybodaeth anghywir i gefnogi cais

**Processing and Storage of Information**

Rydym yn sicrhau bod pawb yn y Brifysgol sy'n ymwneud â'r broses wedi derbyn hyfforddiant priodol i nodi ac asesu perthnasedd ac amgylchiadau troseddau. Rydym hefyd yn sicrhau eu bod wedi derbyn arweiniad a hyfforddiant priodol yn y ddeddfwriaeth berthnasol megis Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974.
Caiff unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â chollfarn(au) neu ddatgeliad a wnaed drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, neu drwy gyfryngau eraill, ei chadw ac, yn y pen draw, gwaredir arni, yn unol â'r canllawiau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ynghylch dulliau diogel o storio, trin, defnyddio, cadw a chael gwared ar ddatgeliadau a gwybodaeth ddatgelu (gweler polisi'r Brifysgol yn http://www.swansea.ac.uk/admissions/criminalrecordchecks/)

Y sail gyfreithiol a ddefnyddir ar gyfer prosesu data ynghylch collfarnau troseddau yw amodau 10 (Atal neu ganfod gweithredodd anghyfreithlon) a 18 (Diogelu plant ac unigolion sy'n agored i risg) yn Atodlen 1 Deddf Diogelu Data 2018; a'r amod yn Erthygl 6(1)(b) a/neu 6(1)(e) y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol

**Collfarnau a dderbynnir ar ôl i'r Brifysgol wneud cynnig**

Os yw ymgeisydd yn derbyn rhybuddiad neu gollfarn berthnasol ar ôl derbyn cynnig a chyn y dyddiad cofrestru, dylai roi gwybod i'r Swyddfa Derbyn yn ddi-oed.

**Gwybodaeth Bellach**

Os oes gan ddarpar fyfyrwyr neu ymgeiswyr unrhyw gwestiynau am y polisi hwn neu am eu collfarnau, gallant e-bostio admissions@abertawe.ac.uk am gyngor ac arweiniad.

**Diweddarwyd ddiwethaf Awst 2025**